

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cafodd Glyn Davies (Saron) a William T. Williams (Llanfair) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y cafodd Gwenfyl Lloyd (Peniel) yn Ysbyty Abergele yr wythnos hon. Cofiw'n hefyd am Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a Trefor Jones (Nantglyn) ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari. Gweddiwn y byddant oll yn profi grym ein gweddïau drostynt.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sydd bellach wedi symud i gartref yr Hen Ddeondy, Llanelwy. Gweddiwn y bydd yn profi o ddaioni Duw wrth iddo gartrefu yno, ac y bydd yn elwa o'r gofal sydd mor gyfarwydd i eraill o'r Ofalaeth o law'r staff yno. Cofiw'n am ei deulu hefyd gan gydnabod eu gofal arbennig hwythau drosto yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf hyn.

I ddo

- **CYFARFOD BLYNYDDOL CHWIORYDD YR HENADURIAETH** yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Fercher, Hydref 8fed am 7.00. Y siaradwraig fydd Mary Thomas, Llanuwchllyn. Croeso cynnes i bawb.
- **CYMDEITHAS Y BEIBL, LLANSANNAN** –Bydd y pwyllgor yn ymgynnull nos Sul, Hydref 12fed yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.15.
- **NOSWEITHIAU ARDDANGOS A HYRWYDDO GWERSLYFRAU AC ADNODDAU CRISTNOGOL** a chyfle i gael cyflwyniad ar faterion gofal a diogelwch rhwng 7 a 9 o'r gloch. Bydd cyflwyniad 15 munud gan Aled Davies i gyfres o werslyfrau newydd ac adnoddau eraill am 7.30, ac yna am 8.00, bydd Julie Edwards yn rhoi cyflwyniad ar ran y Panel Diogelwch Cydenwadol i'r ddogfen Llwylyfr Diogelu Grwpiau Bregus. LLEOLIADAU: Medi 30ain – Coleg y Bala; Hydref 6ed – Bethania, Rhuthun; Hydref 9fed – Capel yr Annibynwyr, Cyffordd Llandudno; Hydref 13eg – Capel Coffa Henry Rees, Llansannan. Croeso cynnes i bawb.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** yn cyfarfod yng Nghapel y Groes nos Fawrth, Hydref 14eg am 7.30 pryd y ceir sgwrs a chàn gan y Parch. Tecwyn Ifan.
- **CYFARFOD I WERTHFAWROGI GWEINIDOGAETH Y PARCH ERIC JONES** (a fydd yn ymddeol wedi iddo wasanaethu'i Ofalaeth bresennol am dros 25ain mlynedd, a thros 16eg o flynyddoedd cyn hynny yng ngofalaeth Llansannan) dydd Sul, Hydref 19eg am 3:30 yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** nos Iau, Hydref 30ain yng Nghapel Bethania gyda'r Parch Rhys Llwyd yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Medi 2014

Darlleniad y Dydd

Eseciel 37: 11-14

(BCND tud.789 / BCN: tud.719)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso i oedfaon y dydd! Es am dro y dydd o'r blaen heibio Nant y Merddyn ac i fyny heibio i lyn Rhyd y Bedd. Cefais fraw o weld fod dŵr y llyn mor isel – dŵr afonig fechan yn llifo drwy wely'r llyn lle mae cronfa ddofn o ddŵr fel arfer. Golwg annisgwyl a gafodd Eseciel yn y weledigaeth hon hefyd o ddyffryn. Yn lle'r llawnder arferol, dyffryn sych yn llawn o esgyrn sychion a welodd. Dyma'r olwg a gawsom ar Henaduriaeth Dyffryn Clwyd hefyd yn y cyfarfod o'r Henaduriaeth y dydd o'r blaen. Dyffryn o sychder ysbrydol ac yn llawn o esgyrn.

Oes yna rym a all newid pethe meddech chi? Llenwi'r llynnoedd eto, bywhau'r esgyrn, troi Dyffryn Clwyd yn ddyffryn o ddiwygiad! Yn ddiddorol iawn yn yr hanes yn Llyfr Eseciel, nid y proffwyd sy'n gofyn hyn i Dduw ond yn hytrach Duw sydd yn gofyn y cwestiwn i Eseciel – ac felly i ni. Mae Duw yn gwybod beth fedrith o ei wneud! Beth ydan ni'n credu y gall Dduw ei wneud am ein sefyllfa ysbrydol ni? “Fab dyn – A fydd byw yr esgyrn hyn?” sy'n gwestiwn gan Dduw i ni! Beth ydi'r ateb priodol? Yn ddiddorol iawn eto, nid yw'r proffwyd yn dweud: ‘byddant siŵr’ neu ‘wrth gwrs y byddan nhw – ti'n Dduw wedi'r cyfan!’ Yr ateb priodol a'r ateb y dylen ni ei gyflwyno 'nôl i'r Arglwydd, os ydan ni'n pryderu o gwbl am y sefyllfa, ydi'r un a roddodd Eseciel sef: “ Ti Arglwydd a'i gwyddost”.

Mae gen i hyder y bydd Rhyd y Bedd yn llenwi eto. Yn un peth, gwelais yr un peth yn digwydd y llynedd a dwi hefyd yn gwybod fod Llyn Aled Ucha sydd uwchben Rhyd y Bedd yn llawn i'r ymylon. Bydd y dyfroedd yn tywallt o un llyn i'r llall ac yn creu cronfa 'newydd' eto cyn hir. Onid yr un ffydd sydd ei angen arnom? Mae'r proffwyd cystal â'i fod yn dweud wrth Dduw 'mae'r wybodaeth gen ti, mae'r cyfan yn dy law di, yn dy ewyllys a'th lywodraeth. Ti, O Arglwydd fydd yn penderfynu a thi yn unig sy'n gwybod.' Ond nid ffydd ddall, naif, ydi hon, ond ffydd sy'n gallu edrych yn ôl ar y ffordd y mae Duw wedi gweithio yn y gorffennol a ffydd sydd â'i golwg hefyd ar y llawnder sydd uwchben ein sychder a'n gwacter ni – cronfa dragwyddol o fendithion y nefoedd ar gyfer yr amser y bydd Duw yn penderfynu agor y llifddorau! Bydd Duw yn ffyddlon i'w addewidion ac yn eu cadw. Gobeithio y bydd yr un peth yn wir yn hanes yr addewidion a wnaethpwyd i'r Alban – cawn weld! Ond mae addewidion Duw am ddanfoniad ei Ysbryd yn sicr.

Y gair nesa a gafodd Eseciel oedd “Proffwyda!” A dyma yw ein baint a'n cyfrifoldeb ni, sef dweud wrth bawb am Iesu a disgwyl wrth yr Ysbryd i fywhau eneidiau a dod ag anadl bywyd iddynt eto.

Clodforwn yr Arglwydd a disgwylw'n wrtho yn ein hoedfaon ac yn ein calon heddiw, a diolchwn ei bod o hyd yn ddydd arall o ras lle mae Duw ar waith!

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Pedr 3: 13-18 (BCND tud.257 / BCN: tud.236)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher • **Adnabod yr Angen** - cyfle i foli a cheisio Duw mewn gweddi ynglŷn a'n dyhead i rannu'n ffydd gydag eraill yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Alfred Place, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BS. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a bydd Cath Williams yn rhoi sgwrs, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Guto a Bethan Davies yn cyflwyno Evan Clement i'w fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Iau Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Saron am 7.00 gyda'r Parch Emlyn Richards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.00.
- *Iau* Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau